

ROBERTS, WILLIAM (1809 - 1887), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, golygydd, ac awdur

Enw: William Roberts
Dyddiad geni: 1809

Dyddiad marw: 1887

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, golygydd, ac awdur

Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu

Awdur: Robert (Bob) Owen

Ganwyd yn Llannerch-y-medd, 25 Medi 1809. Addysgwyd gan John Richards, offeiriad ei blwyf, a bu yn ysgol **William Griffith**, gweinidog gyda'r Annibynwyr, Caergybi. Dechreuodd bregethu yng nghapel Hyfrydle, Caergybi, yn 1829. Aeth i Ddulyn am ychwaneg o addysg, crynhodd rai o Gymry Dulyn at ei gilydd, a thrwy hynny cychwynnwyd eglwys Gymraeg yn y ddinas honno. Fe'i cyfrifid yn un o'r pregethwyr mwyaf poblogaidd a godwyd yn sir Fôn erioed. Ordeiniwyd ef yn 1848. Cafodd alwad, 1855, i fugeilio eglwys y Methodistiaid Calfinaidd yn Efrog Newydd, U.D.A., a thra bu yn y ddinas honno arolygodd argraffu'r Beibl Cymraeg cyntaf a gyhoeddwyd, 1858, gan Gymdeithas y Beiblau, U.D.A. Symudodd o Efrog Newydd yn 1877 i fugeilio eglwys Moriah (Methodistiaid Calfinaidd), Utica, talaith Efrog Newydd, a bu yno am 10 mlynedd, sef hyd ei farw. Bu'n olygydd *Y Cyfaill* (Utica); buasai eisoes yn golygu *Y Traethodydd yn America* o 1857 hyd 1860. Cyhoeddodd *Darlith ar Elfennau Pabyddiaeth*, 1855; *Traethawd ar Etholedigaeth Gras*, 1856; a *Y Pechod o esgeuluso Moddion Gras*, 1865. Bu farw 2 Hydref 1887.

Awdur

Robert (Bob) Owen, (1885 - 1962)

Ffynonellau

Moriah, Utica, N.Y., U.S.A., 1830-1930, 16-7

T. S. Griffiths, *Hanes y Methodistiaid Calfinaidd yn Utica, N.Y.* (Utica 1896), 1936, 92-104

Gweithiau

David Jones, Owen Thomas, John Parry, *Cofiant y Parchedig John Jones, Talysarn* (Efrog Newydd 1868)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20804833

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>



Owen, R. (., (1953). ROBERTS, WILLIAM (1809 - 1887), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calфинаidd, golygydd, ac awdur. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-ROBE-WIL-1809>

Y Bywgraffiadur

Preifatrwydd a Chwcis
Hawffraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Yn ddiwedd gan:
Llywodraeth Cymru
Developed by:
Welsh Government